JEREMY MILES **AC/AM**
**Y Cwnsler Cyffredinol Counsel General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC/AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

9 Chwefror 2018

Annwyl Mick

**RHEOLIADAU'R DRETH TRAFODIADAU TIR (BANDIAU A CHYFRADDAU TRETHI) (CYMRU) 2018**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 26 Ionawr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid; rwyf yn ateb ar ran y Llywodraeth mewn perthynas â'r materion a godwyd gennych ynghylch hygyrchedd deddfwriaeth.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod cyfreithiau Cymru'n hygyrch, ac fel y cyfryw mae'n hanfodol eu bod yn ddealladwy, yn glir a bod modd rhagweld eu heffaith.

Ein safbwynt ni o ran diffiniadau yw na ddylid eu cynnwys ond lle maent yn hybu eglurder neu sicrwydd. Felly, os bwriedir i air fod â'r ystyr gyffredin sydd iddo mewn geiriadur, neu os yw'n amlwg o'r cyd-destun at beth y mae'r term yn cyfeirio, gallai cynnwys diffiniad beri tipyn o ddryswch.

Yn yr un modd, lle mae adran 11 o Ddeddf Dehongli 1978 yn gymwys, rydym o'r farn y gallai ailadrodd diffiniad o Riant-ddeddf mewn is-ddeddfwriaeth hefyd greu ansicrwydd o ran dehongli.

Er hynny, rydym yn sicr yn cytuno â'r Pwyllgor y gall adran 11 fod yn rhwystr i ddarllenwyr deddfwriaeth ar brydiau: mae angen i'r sawl sy'n darllen is-ddeddfwriaeth wybod am fodolaeth y Rhiant-ddeddf, y diffiniad yn y Ddeddf honno, a'r rheol bod y diffiniad yn gymwys yn yr is-ddeddfwriaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCounselGeneral@gov.wales
YP.CwnslerCyffredinol@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym eisoes wedi mynd ati i ystyried, fel rhan o'r camau nesaf yn dilyn ymgynghoriad y Llywodraeth ar Ddeddf Ddehongli i Gymru, pa gamau allai gael eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem hon - ac un dewis yw datgymhwyso'r rheol, a fyddai'n golygu y byddai angen diffiniadau mewn is-ddeddfwriaeth.

Rwyf yn argyhoeddedig bod angen mwy o hygyrchedd mewn deddfwriaeth ond nid wyf yn argyhoeddedig mai gwneud hynny mewn ffordd dameidiog yw'r ffordd orau o sicrhau'r canlyniad yr hoffem i gyd ei weld. Er hynny, hyd yn oed heb ddiwygio deddfwriaethol, mae cyfle i wella hygyrchedd mewn ffyrdd eraill, er enghraifft drwy ddefnyddio troednodiadau sy'n cyfeirio at ddiffiniadau allweddol yn y rhiant-ddeddfwriaeth (fel y nodwch yn eich llythyr).  Yn ddi-os byddwn yn anelu at ddefnyddio dulliau gweithredu o'r fath yn llawer helaethach yn y dyfodol lle y gall hynny wella hygyrchedd. Byddwn hefyd yn edrych ar ffyrdd gwell o ddefnyddio'r nodiadau esboniadol i dynnu sylw'r sawl sy'n darllen deddfwriaeth at ble i ddod o hyd i ddiffiniadau.

Gobeithio bod hyn yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor am ein hymrwymiad i gymryd camau i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, ac i arferion drafftio da.

Yn gywir



**Jeremy Miles**
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General